**GORCHYMYN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A LLWYTHO A PHARCIO) (CYDGRYNHOI) 2024 (DIWYGIAD RHIF 4) 2026**

Mae **CYNGOR BWRDESITREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR** (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Cyngor") trwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol trwy arfer ei bwerau o dan Adrannau 1(1), 2(1) i (2), 4, 32, 35, 36, 45, 46, 47, 49, 51, 52 a 53 a 124(1) a Rhan IV Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (Deddf 1984) fel y'i diwygiwyd, a'r holl bwerau galluogi eraill ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu ac yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984 a fydd yn diwygio GORCHYMYN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A LLWYTHO A PHARCIO) (CYDGRYNHOI) 2024, fel y'i diwygiwyd, ("Y Gorchymyn Cydgrynhoi"), fel a ganlyn:-

1. Dirymu'r Cynlluniau Gorchymyn a nodir yng Ngholofn 1 yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn a mewnosod y Cynlluniau Gorchymyn diwygiedig a nodir yng Ngholofn 2 yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn ei le.

2. Ymgorffori'r Cynlluniau Gorchymyn a nodir yng Ngholofn 2 yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn "y Cynlluniau" fel y'i diffinnir yn y Gorchymyn Cydgrynhoi ac sydd wedi'u cynnwys yn Atodlen 1 y Gorchymyn Cydgrynhoi.

3. Mae Atodlen 2 i'r Gorchymyn Cydgrynhoi wedi ei diwygio fel a ganlyn:

   drwy ddileu'r geiriad 'AC63' a mewnosod y geiriad 'AC63 Diw 1' yn ei le, ac o'r dyddiad y mae'r Gorchymyn hwn yn dod i rym bydd Atodlen 2 i'r Gorchymyn Cydgrynhoi yn cael ei ddarllen a'i ddehongli yn unol â hynny.

4. Mae Atodlen 2 i'r Gorchymyn Cydgrynhoi wedi ei diwygio fel a ganlyn:-

   drwy ddileu'r geiriad 'AC64' a mewnosod y geiriad 'AC64 Diw 1' yn ei le, ac o'r dyddiad y mae'r Gorchymyn hwn yn dod i rym bydd Atodlen 2 i'r Gorchymyn Cydgrynhoi yn cael ei ddarllen a'i ddehongli yn unol â hynny.

5. Mae Trydedd Atodlen y Gorchymyn Cydgrynhoi wedi'i diwygio fel a ganlyn o'r dyddiad y daw'r gorchymyn hwn i rym i ymgorffori'r Ardaloedd a restrir i Ardaloedd Trwydded Preswylwyr sy'n ddarostyngedig i Dâl Trwydded:

   O dan y pennawd **ARDALOEDD TRWYDDED PRESWYLWYR (SY'N DDAROSTYNGEDIG I DÂL TRWYDDED)** ychwanegu'r geiriad canlynol yn union ar ôl tabl Parth 8:

| *PARTH 2* | |
|---|---|
| *CAE DRE STREET* | *PEN-Y-BONT AR OGWR* |
| SUNNYSIDE ROAD | *PEN-Y-BONT AR OGWR* |
| FFORDD FYNEDIAD SUNNYSIDE | *PEN-Y-BONT AR OGWR* |

6. I'r graddau y mae unrhyw ddarpariaeth yn y Gorchymyn hwn yn gwrthdaro â darpariaeth sydd wedi'i chynnwys mewn Gorchymyn a wneir neu sy'n cael effaith fel pe baent wedi'i gwneud o dan y Ddeddf ac sy'n bodoli ar yr adeg pan ddaw'r Gorchymyn hwn i rym ac sy'n gosod cyfyngiad ar gerbydau ar hyd ffyrdd ac ochrau ffyrdd a amlinellir ar y Cynlluniau Gorchymyn a nodir yn Atodlen y Gorchymyn hwn y bydd darpariaeth o'r Gorchymyn hwn yn parhau.

7. Bydd y cyfyngiadau, gwaharddiadau a gofynion a orfodir gan y Gorchymyn hwn yn ychwanegol at, a heb randdirymu, unrhyw gyfyngiad neu ofynion a osodir gan unrhyw reoliad a wnaed neu sydd ag effaith fel pe bai wedi'i wneud dan "Ddeddf 1984" neu gan neu dan unrhyw ddeddfiad arall.

8. Bydd unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at unrhyw ddeddfiad yn cael ei ddehongli fel cyfeiriad at y deddfiad hwnnw fel y'i diwygiwyd, ei gymhwyso, ei gydgrynhoi, ei ailddeddfu gan unrhyw ddeddfiad dilynol neu fel pe bai'n cael effaith yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad dilynol.

9. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn fel y mae'n berthnasol i'r dehongliad o Ddeddf Seneddol.

10. Ac eithrio fel y mae wedi'i addasu gan y Gorchymyn hwn, bydd y Gorchymyn Cydgrynhoi yn parhau i fod mewn grym.

11. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 27/02/2026 a'i enw yw "GORCHYMYN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A LLWYTHO A PHARCIO) (CYDGRYNHOI) 2024 (DIWYGIAD RHIF 4) 2026".

Dyddiedig: 11/02/2026


Gosodwyd SÊL GYFFREDIN )
**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR)**
yma ym mhresenoldeb:- )

Llofnodwr Awdurdodedig:

[redacted]

## ATODLEN
## (CYNLLUNIAU GORCHYMYN I GAEL EU DIRYMU A'U MEWNOSOD)

| Colofn Un<br>Cynllun Gorchymyn Dirymwyd | Dyddiad | Colofn Dau<br>Cynllun Gorchymyn Mewnosodwyd (fel y'i atodwyd) | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| 1. AC63 | 29.11.2024 | AC63 DIW 1 | 11.02.2026 |
| 2. AC64 | 29.11.2024 | AC64 DIW 1 | 11.02.2026 |




GORCHYMYN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A LLWYTHO A PHARCIO) (CYDGRYNHOI) 2024 (DIWYGIAD RHIF 4) 2026

BRIDGEND COUNTY BOROUGH COUNCIL (PROHIBITION AND RESTRICTION OF WAITING AND LOADING AND PARKING PLACES) (CONSOLIDATION) ORDER 2024 (AMENDMENT NO. 4) ORDER 2026

**Allwedd Cyfyngu / Restriction Key**

- Dim Aros Unrhyw Bryd / No Waiting At Any Time
- Dim Aros / Dim Llwytho / No Waiting / No Loading
- Deiliaid Trwydded Yn Unig / Permit Holders Only
- Aros Cyfyngedig / Limited Waiting
- Dim Aros Unrhyw Bryd / Dim Llwytho Unrhyw Bryd / No Waiting At Any Time / No Loading At Any Time
- Deiliaid Bathodyn Anabledd Yn Unig / Disabled Badge Holders Only
- Cyfyngiad Defnydd Ddeuol / Dual Use Restriction
- Cyfyngiad Amrywiol / Miscellaneous Restriction
- Dim Aros Unrhyw Bryd / Dim Llwytho / No Waiting At Any Time / No Loading
- Baeau Tacsi / Taxi Bays
- Ysgol Cadw Clir / School Keep Clear
- Cyfyngiad Parthol / Zonal Restriction
- Dim Aros / No Waiting
- Llwytho Yn Unig / Loading Only
- Clirffyrdd / Clearways

**Arall / Other**

- Ffin BCBC / BCBC Boundary

DYDDIAD / DATE: **11/02/2026**

GRADDFA / SCALE: **1:1,250**

RHIF Y MAP / MAP NUMBER: **AC64 Rev 1**

©Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2026. Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans AC0000851951
©Crown Copyright and database right 2026. Ordnance Survey AC0000851951




GORCHYMYN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A LLWYTHO A PHARCIO) (CYDGRYNHOI) 2024 (DIWYGIAD RHIF 4) 2026

BRIDGEND COUNTY BOROUGH COUNCIL (PROHIBITION AND RESTRICTION OF WAITING AND LOADING AND PARKING PLACES) (CONSOLIDATION) ORDER 2024 (AMENDMENT NO. 4) ORDER 2026

©Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2026. Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans AC0000851951
©Crown Copyright and database right 2026. Ordnance Survey AC0000851951

**Allwedd Cyfyngu / Restriction Key**

- Dim Aros Unrhyw Bryd / No Waiting At Any Time
- Dim Aros / Dim Llwytho / No Waiting / No Loading
- Deiliaid Trwydded Yn Unig / Permit Holders Only
- Aros Cyfyngedig / Limited Waiting
- Dim Aros Unrhyw Bryd / Dim Llwytho Unrhyw Bryd / No Waiting At Any Time / No Loading At Any Time
- Deiliaid Bathodyn Anabledd Yn Unig / Disabled Badge Holders Only
- Cyfyngiad Defnydd Ddeuol / Dual Use Restriction
- Cyfyngiad Amrywiol / Miscellaneous Restriction
- Dim Aros Unrhyw Bryd / Dim Llwytho / No Waiting At Any Time / No Loading
- Baeau Tacsi / Taxi Bays
- Ysgol Cadw Clir / School Keep Clear
- Cyfyngiad Parthol / Zonal Restriction
- Dim Aros / No Waiting
- Llwytho Yn Unig / Loading Only
- Clirffyrdd / Clearways

**Arall / Other**

- Ffin BCBC / BCBC Boundary

DYDDIAD / DATE: **11/02/2026**

GRADDFA / SCALE: **1:1,250**

RHIF Y MAP / MAP NUMBER: **AC63 Rev 1**

Gorchymyn TRA001-1501